**Ysgol Gymunedol Bancffosfelen Community School**

**Miss M. Langabeer**
**Pennaeth / Headteacher**

Annwyl Rieni / Ffrindiau Ysgol,

Mae wedi dod i'n sylw fod nifer o bryderion ynglyn â chasglu plant o'r Ysgol ar ddiwedd y dydd.

Yn gyntaf, gwnewch yn siwr eich bod yn casglu eich plant o'r Ysgol ar yr amseroedd cywir:-
Dosbarth Mrs Rees a brodyr a chwiorydd 3:10 y.p.,
Dosbarth Mrs Simpson 3:20 y.p.
Sicrhewch eich bod yn dod i'r gât i gasglu eich plentyn pan fod aelod o staff yn eich galw.

Codwyd pryderon hefyd ynglyn â pharcio ar yr heol fawr a thraffig yn sbido, felly gofynnwn yn garedig i chi barcio yn ofalgar gan adael lle i draffig i basio. Rydym wedi hysbysu'r heddlu o sbid traffic sy'n mynd heibio'r Ysgol ac maent wedi addo monitro'r sefyllfa.

Bydd yr Ysgol hefyd yn cyd-weithio gyda'r Cyngor Cymuned i newid y sbid o 30 m.y.a i 20 m.y.a .

Er mwyn diogelwch ein disgyblion yn Ysgol Bancffoselen byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Byddwn yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad yn y mater hwn er mwyn diogelwch disgyblion Ysgol Bancffosfelen.

Yr eiddoch yn gywir,
Marie Langabeer
Pennaeth